Y Tîm Cyfathrebu a Pherthnasoedd

Anawsterau Emosiynol, Ymddygiadol a Chymdeithasol, Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig

**Beth y gallwch ei ddisgwyl gan y maes gwasanaeth hwn?**

- Cyngor ac arweiniad i'ch galluogi i adnabod anghenion plant a phobl ifanc.
- Hyfforddiant i'r ysgol gyfan ar ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd ag anghenion Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig / Anawsterau Emosiynol, Ymddygiadol a Chymdeithasol (ee Team Teach).
- Arsylwadau athrawon arbenigol er mwyn gwneud argymhellion ar gyfer y llwybr Diagnosis Anhwylderau Niwroddatblygiadol.
- Cwblhau rhestrau gwirio o feini prawf ar gyfer darpariaeth arbenigol ac argymhellion ysgrifenedig i'r Panel Mynediad at Addysg.
- Asesiadau arbenigol o anghenion i benderfynu ar opsiynau (ee asesiadau Anhwylderau Iaith Penodol Social Diamond, Thrive).
- Meithrin gallu i wella'r hyn y gall ysgolion ei ddarparu (ee cynorthwywyr cymorth dysgu emosiynol, gwaith gyda grwpiau/unigolion).
- Cyswllt â chorff arbenigol yn y trydydd sector (ee y fforwm anhwylderau niwroddatblygiadol).
- Cymorth penodol yn ystod cyfnodau pontio, i gynghori lleoliadau newydd ac i sicrhau bod darpariaethau ar waith ac yn gweithio'n effeithio.l
- Hwyluso trefniadau cydweithio drwy ddod â'r gweithwyr proffesiynol perthnasol ynghyd i integreiddio'r gwaith cynllunio a chyflenwi (ee cynllun cymorth bugeiliol).
- Cynrychiolaeth a chyfraniad gan aelod o'r tîm yng nghyfarfodydd y Tîm o Amgylch yr Ysgol.

**Beth yw ein hymateb graddedig?**

- Mae ymateb graddedig newydd ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig ac Anawsterau Emosiynol, Ymddygiadol a Chymdeithasol wedi'i gynllunio a'i rannu ag ysgolion
- Mae'r ymateb graddedig yn cydymffurfio â'r Rhaglen Diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol ac yn dilyn polisïau gorfodol yr awdurdod lleol, gan amlinellu'r gwaith cyffredinol ac arbenigol (Cynllun Datblygu Unigol), gan symud ymlaen i ddarpariaeth ar lefel Mynediad at Addysg (Cynllun Datblygu Unigol gan yr awdurdod lleol)

**Sut i fanteisio ar arbenigedd y gwasanaeth**

- Atgyfeiriadau ar gyfer cymorth arbenigol, meithrin gallu a hyfforddiant i'w gwneud yn electronig.
- Bydd y tîm yn cwrdd bob tair wythnos i drafod disgyblion a gaiff eu hatgyfeirio. Rhaid dangos tystiolaeth o ymateb graddedig a'r dogfennau perthnasol er mwyn medru bwrw ymlaen â'r atgyfeiriad. Yna, trefnir cyfarfod cynllunio gydag aelod o'r tîm.
- Bydd un o'r athrawon arbenigol yn bresennol yng nghyfarfodydd y Fforwm Anawsterau Niwroddatblygiadol.